CYNLLUN GWEITHREDOL MENTER IAITH CASTELL-NEDD PORT TALBOT

Paratowyd mewn cydweithrediad â

Chwmni Sbectrwm

Mawrth 2007

Cynllun Strategol Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot

1. Cefndir

Sefydlwyd Menter Iaith Castell Nedd Port Talbot yn Ebrill 2002 ar ôl i Fenter Aman Tawe gael ei rhannu'n ddwy. Datblygodd un hanner i fod yn Fenter Dyffryn Aman fel rhan o rwydwaith Mentrau Iaith Myrddin yn Sir Gâr a ffurfiwyd Menter Iaith newydd sbon gyda'r hanner arall i wasanaethu Sir Castell-nedd Port Talbot. Yn ystod cyfnod Menter Aman Tawe, a sefydlwyd yn 1994, yr ardaloedd a oedd yn cael eu gwasanaethu oedd Cwmtawe, Dyffryn Aman a rhannau o dde Powys ac Abertawe, ond yn dilyn grant ychwanegol gan Fwrdd yr Iaith yn 2000 llwyddwyd i ymestyn y gwaith ar draws Nedd Port Talbot gyfan ac agorwyd swyddfa ym Mhontardawe i gydlynu'r ymdrechion. Ysgogwyd y newidiadau hyn i raddau yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 a greodd Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Ers ei sefydlu bum mlynedd yn ôl mae'r Fenter wedi datblygu nifer o flaengareddau a phrosiectau yn ystod y cyfnod hwn i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sir.

Mae'r Fwrdeistref yn amrywiol iawn ei natur. Mae gan yr ardal boblogaeth o ryw 134,500. Mae diweithdra yn 8.7%, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 5.3%. Mae diweithdra ymhlith pobl ifainc dan 25 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tua 73% o'r cymunedau mwyaf dirwasgiedig yn y Fwrdeistref ymhlith y 50% o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Y mae 10 cymuned wedi eu cynnwys yn rhaglen 'Cymunedau'n Gyntaf' Llywodraeth y Cynulliad.

Mae proffil economaidd yr ardal wedi newid dipyn dros yr 20 mlynedd ddiwethaf wrth i'r ardal ddibynnu llai ar lo, olew, petrocemegau a metel a mwy ar y sectorau gwasanaethu a thwristiaeth. Serch hynny, mae gwaithgynhyrchu'n rhan bwysig iawn o economi'r ardal gyda 29% o swyddi yn ddibynnol arno gyda chwmni dur Corus yn para i fod yn brif gyflogwr.

2. Cefndir Ieithyddol

Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae tua 18% o boblogaeth y sir yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn cyfateb i ryw 24,210 o bobl. Mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn byw ym mhen uchaf Cwmtawe a Dyffryn Aman gyda rhai cymunedau megis Gwaun Cae Gurwen, Cwmllynfell a Brynaman Isaf ymhlith yr ardaloedd Cymreiciaf yng Nghymru gyfan. Fodd bynnag, dyma'r ardaloedd a welodd y dirywiad mwyaf o safbwynt canran a niferoedd siaradwyr Cymraeg rhwng 1991-2001. Fel y nodir yn y tablau isod, mae rhai cymunedau megis Gwaun Cae Gurwen ac Ystalyfera wedi gweld dirywiad o dros 10% o fewn degawd. Gellid dadlau mai'r ardal sydd yn ymestyn o Drebanos i Gwmllynfell a Rhos i Waun Cae Gurwen yw'r un bwysicaf yn y sir o safbwynt ei harwyddocâd ieithyddol gan mai yno y ceir y niferoedd a'r canrannau uchaf o

siaradwyr Cymraeg. Yr ardal hon yw echel ieithyddol y sir a bydd Cynllun Strategol y Fenter yn rhoi sylw arbennig i gynlluniau sydd yn ceisio atgyfnerthu'r Gymraeg yn y cymunedau allweddol hyn dros y blynyddoedd nesaf. Byddai colli'r waddol hon o Gymreictod naturiol yn sicr o gael effaith seicolegol ddirfawr ar weddill y sir ac ar y twf sylweddol o blant sydd yn mynychu ysgolion Cymraeg y cylch a'r oedolion hynny sydd yn dysgu'r iaith o'u gwirfodd. Dyma un o'r rhesymau pam y penderfynnodd Bwrdd yr Iaith yn ddiweddar i sefydlu Cynllun Gweithredu Iaith yng Ngwaun Cae Gurwen a phenodi swyddog llawn amser i hybu'r Gymraeg yn y pentrefi nodedig hyn.

Y mae'r tabl isod yn dangos y newid o ran canran o safbwynt siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hyn rhwng 1991 a 2001:-

Cymuned	% Siaradwyr Cymraeg (1991)	% Siaradwyr Cymraeg (2001)	% Newid
Cwmllynfell	76.9	68.2	- 8.7
Brynaman Isaf	76.6	68.1	- 8.5
Gwaun-Cae-Gurwen	79.1	67.9	- 11.2
Ystalyfera	66.7	54.6	- 12.1
Trebanos	47.2	42.4	- 4.8
Godre'r Graig	46.3	41.5	- 4.8
Pontardawe	42.1	37.4	- 4.8
Alltwen	40.1	35.9	- 4.2
Rhos	31.4	28.6	- 2.8

(Ffynhonnell: Cyfrifiad 1991/2001)

Er bod canrannau yn adlewyrchiad da o ddwysedd siaradwyr Cymraeg maent i raddau helaeth yn gallu bod yn gamarweiniol fel mesur o hyfywedd iaith. Mae niferoedd ar y llaw arall yn rhoi darlun manylach o safbwynt newidiadau demograffaidd. Gweler yn y tabl isod fel y mae cwymp sylweddol wedi digwydd yn y niferoedd o siaradwyr yr iaith dros gyfnod o ddegawd mewn cymunedau traddodiadol Gymraeg fel Cwmllynfell, Brynaman Isaf, Gwaun Cae Gurwen ac Ystalyfera. Mae colli cymaint â hyn o siaradwyr mewn cyfnod cymharol fyr yn gwanhau sylfaen ieithyddol yr ardal ac yn arwain at ddirywiad cyflymach wrth i'r shifft iaith danseilio hyder a pharodrwydd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd cymdeithasol amrywiol.

Y mae nifer o resymau paham y gwelir erydiad ieithyddol yn digwydd mewn ardaloedd sydd â chanrannau a niferoedd cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg – nodwedd sydd yn gyffredin i gymunedau cyffelyb sydd yn ymestyn ar draws Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth. Ymhlith y prif ffactorau sydd yn cyfrannu tuag at ddirywiad iaith mae:-

- Diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref
- Allfudo/Mewnfudo

- Canfyddiad negyddol o werth cynhenid yr iaith
- Diffyg ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd
- Diffyg hyder Cymry Cymraeg
- Ymlediad y Saesneg i beuoedd traddodiadol y Gymraeg
- Priodasau cymysg eu hiaith
- Grym y dylanwad Eingl-Americanaidd ar ddiddordebau plant a phobl ifainc
- Mwy o farwolaethau na genedigaethau ymhlith teuluoedd Cymraeg

Cymuned	Siaradwyr Cymraeg (1991)	Siaradwyr Cymraeg (2001)	Newid	% Newid Cymharol
Cwmllynfell	877	741	- 136	- 15.5%
Brynaman Isaf	1044	861	- 183	- 17.5%
Gwaun-Cae-Gurwen	2204	1860	- 344	- 15.6%
Ystalyfera	2110	1614	- 496	- 23.5%
Trebanos	668	580	- 88	- 13.2%
Godre'r Graig	681	580	- 101	- 14.8%
Pontardawe	2093	1826	- 267	- 12.8%
Alltwen	891	800	- 91	- 10.2%
Rhos	744	692	- 52	- 7.0%

(Ffynhonnell: Cyfrifiad 1991/2001)

Er bod lleihad amlwg yn y ganran o siaradwyr yr iaith yn y cymunedau traddodiadol Gymraeg, ar lefel sirol gwelwyd cynnydd bychan iawn rhwng 1991-2001 o 17.85% i 17.96%. Mae'n debyg taw'r cynnydd yn y nifer o blant di-Gymraeg sydd yn mynychu'r ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y sir sydd yn gyfrifol am y sefydlogi hwn o'i gymharu â'r lleihad sydd yn digwydd yng nghadarnleoedd yr iaith ym mhen ucha'r sir. Rhaid, fodd bynnag, beidio â rhoi gormod o bwyslais ar ddadansoddiadau gofodol o sefyllfa'r iaith gan mai cyfrwng cymdeithasol a diwylliannol yw hi yn y pen draw ac mae ei nerth a'i chryfder i'w fesur yn ei defnydd, ei statws a'r swyddogaeth a dadogir iddi o fewn patrymau cymdeithasol lleol. Lle mae dwysedd y siaradwyr Cymraeg yn para'n gryf mae'r Gymraeg yn dal ei thir yn gymharol lwyddiannus fel iaith bob dydd i'r gymuned, er bod ffactorau grymus yn cyfrannu'n feunyddiol at ei ffawd.

I'r pegwn arall, mae llai na 10% yn siarad Cymraeg mewn cymunedau megis Glyncorrwg, Aberafan, Taibach, Cymmer a Gwynfi. At ei gilydd mae'r canrannau yn pendilio rhwng 10-15% yn yr ardaloedd sydd yn weddill.

Ar nodyn mwy gobeithiol, y mae'r nifer o blant sy'n cael eu nodi gan Benaethiaid Ysgolion Cynradd y sir fel plant sydd yn siarad Cymraeg gartref neu ddim yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd ond yn rhugl, wedi codi rhywfaint dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl y ffigurau diweddaraf gan Lywodraeth y

Cynulliad mae rhyw 1,600 o blant, sef 7.7% o blant oed cynradd y sir yn siarad Cymraeg gartref ond mae 15.2% o'r holl blant yn cael eu hystyried yn rhugl eu Cymraeg, sydd yn cyfateb i ryw 3,200 o blant i gyd. Mae'r ffigurau hyn yn sicr yn adlewyrchu'r ymdrechion clodwiw a wneir gan yr Ysgolion Cynradd Penodedig a'r Ysgolion Traddodiadol Gymraeg yn y sir. Fodd bynnag, un gofid yw'r ffaith bod llai o blant o'r Ysgolion Traddodiadol Gymraeg fel Cwmllynfell, Cwmgors, Gwaun Cae Gurwen a Brynaman Isaf yn symud ymlaen i Ysgol Gyfun Ystalyfera nag y bu yn y gorffennol ar gyfer eu haddysg uwchradd. Mae llawer mwy o blant rhugl eu Cymraeg o'r ysgolion hyn bellach yn mynd i Ysgol Gyfun Dyffryn Aman neu Ysgol Cwmtawe. Canran o bynciau cymharol gyfyng sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn y naill ysgol a dim ond dosbarth Cymraeg iaith gyntaf i lond dwrn o blant sydd ar gael yn y llall. Mae'r diffyg dilyniant o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg o'r sector cynradd i'r uwchradd yn sicr yn fater o bryder o safbwynt dyfodol yr iaith a'r hyder sydd yn deillio o'i defnyddio mewn gwahanol gyweiriau a meysydd trafod. Er gwaethaf y tueddiadau diweddar hyn, mae'n deg nodi serch hynny bod niferoedd disgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, a bod dros 1,150 yn cael eu haddysg yn gyfangwbl drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol erbyn hyn.

Bydd cydweithio gyda'r Ysgolion Cymraeg ac Ysgol Gyfun Ystalyfera yn cael blaenoriaeth arbennig gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn y Cynllun Strategol. Y nod fyddai darparu cyfleodd i blant a phobl ifainc ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destun cymdeithasol y tu allan i furiau ysgol.

Mae diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref yn sicr yn un o'r ffactorau sydd wrth wraidd dirywiad yr iaith ym Mwrdeistref Castell-nedd Port Talbot. Dengys dadansoddiad diweddar o Gyfrifiad 2001 gan Fwrdd yr Iaith o gyfraddau trosglwyddo iaith i blant 3 - 4 oed bod colli iaith yn digwydd ar draws y sefyllfaoedd teuluol gwahanol yn y sir. Diffinnir 'cyfradd drosglwyddo' gan y Bwrdd fel y nifer o blant sy'n gallu siarad Cymraeg wedi'i mynegi fel canran o'r holl blant. Mae'r oedran 3 – 4 yn allweddol fel mesurydd o drosglwyddiad iaith yn y cartref gan eu bod yn rhydd i raddau helaeth o ddylanwad ieithyddol y sector addysg.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot y gyfradd drosglwyddo i blant 3 i 4 oed mewn cartrefi cwpl â dau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg oedd **82.5%,** sef 85 o blant – colled o 18.

Ar lefel genedlaethol amrywiai'r gyfradd yn ôl awdurdod lleol o bron 90% yng Ngwynedd a Cheredigion i lai na 70% drwy awdurdodau'r de a'r gogledd-ddwyrain.

Mewn cartrefi rhiant unigol ag un oedolyn yn siarad Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot, **55.8%** o'r plant 3-4 oed oedd yn siarad Cymraeg, sef 53 o blant – colled o 42.

Mewn cartrefi cwpl lle'r oedd un oedolyn yn unig yn siarad Cymraeg, **48%** o'r plant 3-4 oed oedd yn siarad Cymraeg, sef 153 o blant, colled o 166.

Mewn cartrefi heb oedolyn yn siarad Cymraeg, **8.4%** o'r plant 3-4 oed oedd yn siarad Cymraeg, sef 213 o blant allan o 2,521.

At ei gilydd roedd **16.8%** o blant 3-4 oed y sir yn siarad Cymraeg gartref allan o gyfanswm o 3,070. Mae'r ffigwr hwn ychydig bach yn uwch na'r nifer a nodwyd gan Benaethiaid fel plant sydd yn rhugl eu Cymraeg.

Mae'r ffigurau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cynllun fel TWF sydd yn gweithio gyda rhieni er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd magu eu plant yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd y Fenter iaith yn parhau i weithio'n agos gyda TWF ar yr ymgyrchoedd hyn dros y blynyddoedd nesaf.

3. Statws Cyfansoddiadol

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar fin cwblhau'r broses o gofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant. Y mae hwn yn ddatblygiad pwysig iawn gan ei fod yn amddiffyn aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr rhag atebolrwydd ariannol personol petai'r Fenter yn mynd yn fethdalwr. Nid yw'r Fenter ar hyn o bryd wedi cychwyn ar y gwaith o gofrestru fel elusen ond gobeithir cwblhau'r dasg ymhen y flwyddyn gan fod manteision amlwg i fudiad gwirfoddol o weithredu fel elusen – yn eu plith y gallu i gyflwyno ceisiadau ariannol i ymddiriedolaethau a chronfeydd sy'n gyfyngedig i elusennau ynghyd â rhai arbedion Treth ar Werth.

4. Nod ac Amcanion y Fenter

Nod:

- Nod Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yw hybu a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn ffiniau'r fwrdeistref sirol.

Amcanion:

Y mae prif amcanion Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys:

- codi hyder a sgiliau iaith siaradwyr Cymraeg;
- hybu a hwyluso gweithgareddau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- darparu cyfleoedd i blant a phobl ifainc gwrdd a chymdeithasu yn y Gymraeg;

- annog y di-Gymraeg a mewnfudwyr i ddysgu'r iaith;
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat;
- cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan fudiadau gwirfoddol;
- dylanwadu ar bolisïau cyrff cyhoeddus;
- newid agweddau tuag at yr iaith a'r defnydd a wneir ohoni;
- codi proffil a delwedd gyhoeddus y Gymraeg;
- gweithredu fel canolfan wybodaeth ac adnoddau;
- cyfrannu tuag at adfywiad cymunedau lleol.

5. Swyddfa'r Fenter

Lleolir swyddfa Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar yr ail lawr yng Nghanolfan y Groes, Pontardawe. Ceir defnydd o ddwy ystafell drwy gytundeb ag Adran Addysg Gydol Oes y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

6. Y Pwyllgor Rheoli

Y mae gan y Fenter Iaith Bwyllgor Rheoli cymharol newydd a gafodd ei ethol mewn Cyfarfod Blynyddol rhyw ddeunaw mis yn ôl. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu datblygiadau strategol ac ariannol, a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Gydag aelodaeth newydd a mwy niferus, mae'r pwyllgor bellach yn un llawer mwy deinamig ac effeithiol ac yn ffocysu'n gliriach ar faterion rheolaeth a sefydlu arferion da o safbwynt cynllunio iaith.

Aelodau'r Pwyllgor Rheoli yw:-

Dyfrig Harris - Cadeirydd
John Thomas - Trysorydd
Owain Lewis
Glynis Williams
Rhian Llewellyn
Anna Phillips
Cyngh Arwyn Woolcock
Alun Harris
Margaret Jones

Mae gan y Fenter un Is-Bwyllgor, sef yr Is-Bwyllgor Adloniant dan gadeiryddiaeth Eurof Williams.

1. Staff

Mae gan y Fenter 4 aelod o staff, sef Prif Swyddog, Rheolwr Swyddfa a Chyllid, Swyddog Ieuenctid a Swyddog Gweinyddol rhan-amser. Rhennir eu cyfrifoldeb fel a ganlyn:-

Prif Swyddog

- Gwneud cais ariannol i Fwrdd yr Iaith yn flynyddol gan gynnwys unrhyw gais ariannol i gyrff statudol eraill. e.e Cynghorau Sir i sicrhau arian craidd i'r Fenter
- Cydweithio yn agos â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu Iaith
- Trefnu cyfarfodydd staff yn fisol a mynychu cyfarfodydd o bwyllgor y Cynllun Gweithredu Iaith
- Edrych ar ôl eu buddiannau Pwyllgor Rheoli'r Fenter gan sicrhau eu bod yn cael adroddiadau cyson ar yr hyn sydd yn digwydd gan y Fenter
- Datblygu systemau swyddfa a staffio'r Fenter - sicrhau bod cyflogau, pensiynau a chostau teithio yn cael eu talu a sicrhau bod contractau staff yn ddilys a bod polisiau megis Iechyd a Diogelwch a salwch yn weithredol
- Datblygu system i werthuso staff a'i adolygu'n flynyddol
- Cefnogi unrhyw weithgareddau sy'n bodoli eisoes trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn yr ardal, a threfnu gweithgareddau lle mae bylchau yn y ddarpariaeth
- Cydweithio â holl bartneriaid y Fenter sef TWF, Urdd Gobaith Cymru, Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Mudiad Ysgolion Meithrin, y Cynlluniau Ardal a llawer mwy i sicrhau cydweithio effeithiol
- Cyfarfod â'r partneriad hyn yn rheolaidd drwy'r Fforwm Iaith sirol
- Cydweithredu gyda Gweithwyr Cymunedol yr ardal, clybiau a chymdeithasau cymunedol (e.e. clybiau ieuenctid, sgowtiaid, geidiaid, clybiau pel-droed/ rygbi)
- Trefnu cyfarfodydd gyda grwpiau cymunedol i gyfnewid syniadau
- Cynghori a chynorthwyo unigolion a chymdeithasau i gyfieithu arwyddion a phosteri
- Ysgogi trafodaethau ar raddfa leol i ystyried datblygiadau a thueddiadau a allai ddylanwadu ar gyflwr yr iaith Gymraeg mewn ardal
- Codi proffil y Gymraeg gydag arwerthwyr tai ac eiddo, a chymdeithasau tai dwy'r cynllun Pecyn Croeso
- Ymateb i bapurau ymgynghorol megis arolwg y Cynulliad, adroddiadau Cyngor Sir ayb.
- Ymdrin â'r wasg yn rheolaidd er mwyn cynnal proffil y fenter

- Cynnal ymchwil parhaol i dueddiadau ieithyddol a monitro twf defnyddio'r Gymraeg yn Sir Castell-nedd Port Talbot
- Mynychu cyfarfodydd Rhanbarthol y Mentrau, Mentrau Iaith Cymru a chyfarfodydd eraill er budd y Gymraeg.
- Lobio Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad lleol er budd y Gymraeg

Rheolwr Prosiect a Chyllid

Rheoli holl brosiectau'r Fenter yn Sir Castell-nedd Port Talbot gan sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar eu cyfer. Datblygu a chynnal cynlluniau penodol megis:

- Dosbarthu gwybodaeth grantiau Bwrdd yr Iaith a Naws am Le, gan gynorthwyo busnesau i sicrhau grantiau ar gyfer arwyddion a deunyddiau dwyieithog
- Cynhyrchu deunyddiau marchnata busnes ar y cyd â'r Prif Swyddog
- Cydweithio gyda mudiadau eraill sydd yn ymwneud â'r sector preifat megis Menter a Busnes, Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot, Llygad Busnes ac eraill
- Mynychu cyfarfodydd gyda Grwpiau Busnes a Chynghorau Tref a Chymuned
- Mynychu cyfarfodydd Rhanbarthol y Mentrau, ac i ddirprwyo ar ran y Prif Swyddog mewn cyfarfodydd Mentrau Iaith Cymru.

Dyletswyddau Cyllid:

- Cynnal a datblyu systemau cyllid ar Cashflow Manager a sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu hadolygu pob mis o ran incwm a gwariant
- Gwneud ceisiadau am arian ar gyfer prosiectau newydd a swyddi ychwanegol i gronfeydd megis Amcan Un, Loteri Fawr, Cyngor y Celfyddydau

Dyletswyddau Eraill:

- Cydweithio â gweithwyr cymunedol yr ardal, clybiau a chymdeithasau cymunedol (ee. Clybiau ieuenctid, sgowtiaid, geidiaid, clybiau pêl droed/rygbi) i drafod y posibilrwydd o gyflwyno gweithgareddau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn eu rhaglenni blynyddol.
- Cydweithio i drefnu cyngherddau a nosweithiau cymdeithasol i'r cyhoedd gyda mudiadau lleol a rhai cenedlaethol
- Cydweithio gyda'r Prif Swyddog i gynhyrchu papur newyddion y Fenter, sef y Negesydd
- Cydweithio gyda Gweilch Tawe Nedd i drefnu erthyglau dwyieithog ar gyfer eu rhaglenni gemau cartref

Cydweithio â phartneriaid y Fenter:

- Parhau â'r berthynas agos gyda grwpiau gwirfoddol sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg fel Merched y Wawr, Cymdeithasau Cymraeg, Yr Urdd, Mudiad Ysgolion Meithrin, Ffermwyr Ifanc, TWF a CYD er mwyn osgoi gwrthdaro a dyblygu ymdrechion
- Cefnogi unrhyw weithgaredd sy'n bodoli eisoes trwy gyfrwng y Gymraeg a threfnu gweithgareddau lle mae bylchau yn y ddarpariaeth ar y cyd â phartneriaid y Fenter

Gwaith Swyddfa:

- Ymateb i ymholiadau ffôn, creu datganiadau i'r wasg, mân gyfieithiadau, a rhywfaint o waith gweinyddol
- Cynorthwyo'r Prif Swyddog gyda holl systemau gweinyddol y Fenter gan redeg y swyddfa yn ei habsenoldeb.

Swyddog Ieuenctid

- cynnal arolwg manwl o'r prif wasanaethau ieuenctid yn y sir gan ganolbwyntio'n bennaf ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
- drwy broses o ymgynghori eang asesu anghenion pobl ifainc o safbwynt gweithgareddau cyfrwng Cymraeg
- meithrin cysylltiadau a datblygu partneriaethau gyda'r prif ddarparwyr gwasanaethau ieuenctid sirol
- cydweithio gyda mudiadau megis yr Urdd a'r Ffermwyr Ifainc ar brosiectau penodol i'r grŵp oedran 14-25
- cydweithio gydag Adran Addysg Gymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar strategaeth i Gymreigio clybiau ieuenctid yr Awdurdod Addysg
- dylanwadu ar bolisi iaith Adran Gwasanaethau Hamdden y Cyngor Sir er mwyn sicrhau cynnydd yn y nifer o gyrsiau hamdden a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. gwersi nofio, cadw'n heini, gymnasteg ayb
- trefnu gweithgareddau blaengar a deniadol i bobl ifainc
- hyrwyddo gweithgareddau poblogaidd sydd yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng anymwthiol
- cydweithio gyda chlybiau chwaraeon y sir er mwyn trefnu sesiynau hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg
- defnyddio sêr o fyd chwaraeon fel hyfforddwyr ac arweinwyr gweithdai
- darparu cyfleoedd i bobl ifainc ddatblygu eu sgiliau mewn meysydd megis drama, celf, dawns, chwaraeon aybrhoi blas i bobl ifainc ar weithgareddau mor amrywiol â sgïo, sglefrio, bowlio deg, mynydda, canŵio aybymbweru pobl ifainc i gymryd rhan mewn prosesau democrataidd lleol drwy gefnogi gwaith y fforymau ieuenctid a sefydlu rheithgorau barn

Swyddog Gweinyddol (Rhan Amser)

- Agor, dyddio a dosbarthu post a dderbynnir
- Postio llythyron ar ran y swyddfa
- Bancio sieciau ac arian parod
- Cadw trefn ar ddyddiadur / bwrdd gwyn wythnosol y swyddfa
- Cynnal y digwyddiadur ar wefan y Fenter
- Cyfrifoldeb ffeilio'r swyddfa
- Cynnal a chadw'r llungopïwr
- Cyfrifoldeb am arian parod y swyddfa
- Talu anfonebau a dderbynnir yn brydlon
- Cyfarfodydd – trefnu lleoliadau a chysylltu gyda'r aelodau
- Mynychu cyfarfodydd "Defnyddwyr y Groes"
- Unrhyw waith gweinyddol arall yn ôl y galw

Gan edrych ar yr ystod eang o gyfrifodebau sydd gan y staff presennol a'r angen dybryd i weithio gydag Ysgolion Cynradd Cymraeg y sir, dylai sicrhau cyllid i benodi Swyddog Cynradd llawn amser fod yn fater o flaenoriaeth i'r Fenter dros y misoedd nesaf.

2. Swyddogaethau Strategol

Mae i Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot batrymau ieithyddol gwahanol iawn sydd yn amrywio o ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg i gymunedau sydd yn amlygu gwaddol o Gymreictod 'slawer dydd ac ardaloedd sydd wedi eu Seisnigo'n sylweddol. Dylid seilio swyddogaeth hyrwyddo gyffredinol y Fenter felly ar y rhwydweithiau/grwpiau targed canlynol:-

- cymunedau Cymraeg pen uchaf Cwm Tawe a Dyffryn Aman
- rhwydweithiau o rieni o gylch yr Ysgolion Penodedig a Thraddodiadol Gymraeg
- rhwydweithiau Cymraeg yn ardaloedd mwy Seisnig y sir
- cymunedau o ddiddordeb arbennig, e.e. plant, ieuenctid, dysgwyr, busnesau

Bydd swyddogaethau strategol y Fenter yn seiliedig ar y canlynol:-

- Cydweithio â sefydliadau ac asiantaethau sirol gan gynnwys yr awdurdod lleol, cyrff cyhoeddus, sefydliadau addysg a mudiadau gwirfoddol allweddol gan annog, hyrwyddo a chefnogi defnydd helaethach o'r Gymraeg ymysg y cyrff hynny
- Gweithio gydag unigolion, cymdeithasau a mudiadau ar lawr gwlad i'w cefnogi a'u grymuso fel y bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith gymunedol fyw o fewn y sir
- Hwyluso prosiectau blaengar penodol ar sail blaenoriaethau sirol a lleol

- Darparu cymorth a chefnogaeth i fudiadau lleol a chymunedau yn ôl y galw drwy weithredu fel canolfan adnoddau iaith. Bydd cyngor, gwybodaeth, deunyddiau ac offer ar gael gan y Fenter mewn ymateb i ymholiadau.

3. Dulliau Gweithredu

Mae'r Fenter yn ymrwymo i weithredu arferion da mewn cynllunio iaith ac i'r perwyl hwnnw bydd pob blaengaredd newydd yn cael ei gynllunio'n ofalus i sicrhau'r defnydd gorau a mwyaf effeithlon o adnoddau. Bydd pob gweithgaredd yn cael ei gynllunio'n ofalus er mwyn cael yr effaith mwyaf positif ar sefyllfa'r iaith. Dull gweithredu sylfaenol y Fenter fydd y cylch cynllunio cydnabyddedig sydd yn greiddiol i ddatblygiad pob Cynllun Strategol. Sail y model hwnnw yw sicrhau bod y dull gweithredu yn cynnwys pedair elfen graidd, sef:-

Ymchwilio
↓
Cynllunio
↓
Gweithredu
↓
Gwerthuso

Mae'r gwaith **ymchwil** yn cynnwys cynnal asesiad o berfformiad y Fenter dros y flwyddyn ddiwethaf mewn modd systematig a chadarnhaol, gan ddathlu llwyddiannau a dysgu o gamgymeriadau. Mae e'n golygu edrych ar ei chryfderau a gwendidau – mewnol ac allanol - ynghyd â rhoi sylw i'r cyfleoedd sydd ar gael i'w datblygu a'r bygythiadau sydd yn llechu allai beryglu ei dyfodol. Mae'n cynnwys gwneud dadansoddiad cyfredol o sefyllfa'r iaith yn y sir gan ystyried y ffactorau cymdeithasol ac economaidd hynny allai danseilio'r Gymraeg. Yn bwysicaf na dim mae'n cynnwys canfod barn ac asesu anghenion y sawl sy'n manteisio ar wasanaethau'r Fenter drwy ymgynghori gydag unigolion, mudiadau a sefydliadau allweddol. Bydd canlyniadau'r ymchwil yn cyfrannu'n sylweddol tuag at y broses gynllunio.

Mae **cynllunio** yn galluogi'r Fenter i flaenoriaethu ar gyfer y dyfodol gan benderfynu beth sydd angen ei wneud a sut y dylid ei gyflawni. Mae'r broses yn annog gwell defnydd o adnoddau – dynol, ariannol, offer ac amser – ac yn sicrhau bod y dull o weithredu'n fwy rhagweithiol ac yn llai adweithiol. Er bod adegau'n codi pan y bydd rhaid ymateb yn fyrfyfyr i sefyllfaoedd annisgwyl a gollwng cynlluniau ar eu hanner, prin iawn ydynt mewn gwirionedd a dylid wastad geisio cadw at y cynlluniau a gytunwyd. Dylai amcanion y cynllun gweithredol fod yn benodol, mesuradwy ac yn realistig gydag adnoddau ac amser digonol wedi eu neilltuo ar gyfer eu cyflawni.

Unwaith y mae'r Cynllun Gweithredol wedi ei gymeradwyo gan Bwyllgor Rheoli'r Fenter, y cam nesaf yw ei **weithredu.** I hyn i ddigwydd yn effeithiol, dylai pob aelod o staff neu wirfoddolwr sy'n gysylltiedig â gweithredu'r amcanion lunio cynllun gwaith personol dros gyfnod o 3-6 mis. Dylai'r rhaglenni gwaith hyn gael eu hadolygu'n gyson a'u diwygio yn ôl yr angen. Bydd cyflawni yn erbyn y targedau a nodwyd ar gyfer pob prosiect yn ffurfio rhan o'r adolygiad perfformiad chwe-misol a gynhelir o'r staff.

Y cam olaf yn y cylch cynllunio yw'r **gwerthuso**. Mae monitro a gwerthuso rheolaidd yn hanfodol er mwyn asesu cynnydd yn erbyn targedau a pherfformiad staff. Dim ond drwy werthusiad manwl y mae deall sut y mae'r Cynllun Gweithredol yn datblygu ers ei ddechreuad a phenderfynu os oes angen ail-gyfeirio'r gwaith yn sgîl amgylchiadau annisgwyl. Y cwestiynau bydd y Fenter yn eu gofyn wrth werthuso yw – a gyflawnodd y prosiect yr amcanion a osodwyd ar ei gyfer, a gyflawnwyd y targedau a gytunwyd, a gafodd y deilliannau eu gwireddu, a wnaed gwahaniaeth gwirioneddol i'r defnydd o'r Gymraeg? Os na, pam na, a beth ddylid gwneud yn wahanol y tro nesaf?

4. Dadansoddiad SWOT

Er mwyn asesu datblygiadau'r gorffennol ac edrych ar flaenoriaethau'r dyfodol cynhaliwyd dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau) gyda swyddogion y Pwyllgor Rheoli a staff y Fenter. Y prif bwyntiau a nodwyd yn y sesiynau trafod oedd y canlynol:-

Cryfderau	Gwendidau
• Rhai cymunedau â chanrannau uchel o ran siaradwyr Cymraeg • Adnoddau cymdeithasol da • Pwyllgor Rheoli cryf • Perthynas dda gydag Ysgol Gyfun Ystalyfera a rhai Ysgolion Cynradd Cymraeg • Cyswllt da gyda Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir • Fforwm Iaith Sirol • Cefnogaeth dda i ddysgwyr • Gweithgareddau chwaraeon • Cydweithio da gyda chlwb rygbi'r Gweilch • Is-bwyllgor adloniant • Cynllun e-chlysur • Y Negesydd • Cyswllt da gyda Llygad Busnes a Gyrfa Gorllewin Cymru • Ewyllys da tuag at amcanion y Fenter • Staff brwdfrydig a pharod eu cefnogaeth	• Cymunedau ieithyddol a chymdeithasol amrywiol iawn • Diffyg adnoddau ariannol a dynol • Ansicrwydd ynglyn ag ariannu swydd y Swyddog Ieuenctid i'r dyfodol • Dim swyddog i weithio gyda phlant oed cynradd • Angen denu aelodau newydd i'r Pwyllgor Rheoli, yn arbennig pobl ifainc • Diffyg profiad o ran sgiliau rheoli • Diffyg hyder wrth ddelio â materion strategol • Cyfathrebu annigonol rhwng y staff a'r Pwyllgor Rheoli • Methu cyfleoedd i ddylanwadu ar strategaethau sydd yn effeithio ar yr iaith Gymraeg • Gor-ganolbwyntio ar Bontardawe a'r cylch • Dim monitro digonol ar y defnydd o'r iaith mewn gweithgareddau i blant a phobl ifainc • Gormod o brosiectau yn dilyn grant yn hytrach na Chynllun Strategol manwl • Diffyg proffil cyhoeddus i'r Fenter • Lleoliad anaddas fel 'ffenest siop' i'r Gymraeg • Gor-ddibyniaeth ar yr Ysgolion Penodedig Gymraeg • Dim digon o gyswllt gyda Phartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf

	• Gor-bwyslais ar chwaraeon • Datblygiadau tai sylweddol yn yr ardaloedd Cymraeg
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
• Ymestyn aelodaeth y Pwyllgor Rheoli drwy sefydlu pwyllgorau ardal • Adnabod 'animateurs' ieithyddol lleol • Datblygu cysylltiadau agosach gyda rhai o adrannau allweddol y Cyngor Sir • Cydweithio gyda Swyddog Dwyieithrwydd y Rhwydwaith Ddysgu Newydd • Cydweithio gyda Phartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf • Cydweithio gyda Chanolfan Iaith de-orllewin Cymru yng Ngholeg y Brifysgol Abertawe • Ymateb i Gynllun Unedol y Cyngor Sir drwy alw am asesiad o impact ieithyddol datblygiadau tai • Gweithio'n agosach gyda'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Sirol • Datblygu Cynllun Marchnata • Penodi Swyddog Cynradd • Cydweithio gyda'r Papurau Bro • Cydweithio'n draws-ffiniol gyda Mentrau iaith eraill	• Lleihad yn y grant a geir gan Fwrdd yr Iaith a ffynonellau nawdd eraill • Colli swyddi o ganlyniad i leihad mewn nawdd • Staff allweddol yn symud i swyddi eraill • Colli aelodau allweddol o'r Pwyllgor Rheoli • Colli defnydd o swyddfa'r Fenter yng Nghanolfan y Groes, Pontardawe • Colli cefnogaeth wleidyddol • Diffyg sgiliau ac arweiniad i gyflawni gofynion y Cynllun Strategol • Datblygiadau tai yn arwain at fewnfudo • Gor-ganolbwyntio ar y sector addysg ar draul y cymunedol • Y staff a'r Pwyllgor Rheoli yn colli ymddiriedaeth yn ei gilydd • Cyhoeddusrwydd anffafriol yn tanseilio hyder staff a gwirfoddolwyr

5. Prosiectau Presennol (2006 - 07)

Mae'r prosiectau a weithredir yn yn y flwyddyn ariannol 2006-07 yn cynnwys:-

- Marchnata Llinell Gefnogi Gwaith Cartref Bwrdd yr Iaith
- Cydlynu taith Popty o gwmpas ysgolion uwchradd y sir i hyrwyddo canu roc a phop Cymraeg
- Hyrwyddo'r cynllun 'Iaith Gwaith' yn y sector preifat
- Hybu cynllun 'Grant Busnes' Bwrdd yr Iaith a chynllun 'Naws am Le' y Bwrdd Croeso
- Cynnal noson i wobrwyo busnesau bach yr ardal
- Codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ymhlith gweithwyr y Cyngor Sir
- Datblygu cysylltiadau gyda Phartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf
- Mynychu cyfarfodydd o'r Fframwaith Plant a Phobl Ifainc
- Cydweithio gyda swyddog TWF ar ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth rhieni o fanteision magu plant yn ddwyieithog
- Gweithredu cynllun e-chlysur
- Cydlynu cyfarfodydd o'r Fforwm Iaith Sirol
- Trefnu gweithdai cerddoriaeth i blant cynradd
- Ymweld ag ysgolion cynradd gyda'r caffi syber
- Sefydlu dwy aelwyd ar y cyd â'r Urdd
- Sefydlu Fforwm Ieuenctid i ddisgyblion Ysgol Ystalyfera
- Cydweithio gyda phrosiect PONTY
- Trefnu gwibdeithiau i bobl ifainc
- Trefnu penwythnos gweithgareddau awyr agored ar y cyd â Menter Iaith Abertawe a Menter Dyffryn Aman
- Darparu gweithgareddau amrywiol i ddysgwyr
- Paratoi erthyglau Cymraeg i raglen gêmau gartref y Gweilch

- Trefnu sesiynau chwaraeon i oedolion
- Cynhyrchu'r 'Negesydd' bob deufis
- Cynnal stondin i'r Fenter yng Ngŵyl Pontardawe
- Paratoi datganiadau i'r wasg rheolaidd

6. Blaenoriaethau Strategol (2007 – 2010)

Seilir y Cynllun Strategol ar yr 8 maes blaenoriaeth canlynol:-

- Plant Oed Meithrin
- Plant Oed Cynradd 4-11
- Pobl Ifainc 11-25 oed
- Oedolion
- Marchnata a Hyrwyddo
- Addysg
- Sector Preifat
- Gweinyddiaeth a Threfniadaeth

a) Plant Oed Meithrin

Mae'n amhosibl gorbwysleisio cyfraniad addysg feithrin i ddatblygiad cymdeithasol ac addysgol plant ac mae'r profiadau a ddarperir ar eu cyfer yn y cylchoedd meithrin yn sylfaen i'r hyn a ddysgir iddynt weddill eu hoes. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad bod y twf dros y blynyddoedd diwethaf mewn addysg Gymraeg wedi cyd-fynd â thwf a datblygiad Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM).

Mae gan MYM rhyw 15 o gylchoedd meithrin yn y sir sydd ar y cyfan yn bwydo'r ysgolion Cymraeg a cheir cydweithio da rhyngddynt a chynllun TWF a sefydlwyd er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni o fanteision magu plant yn ddwyieithog. Mae cefnogi gwaith MYM a TWF yn allweddol i ddyfodol yr iaith yn yr ardal.

b) Plant Oed Cynradd 4-11

Y mae tua 2,000 o blant cynradd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir mewn 6 Ysgol Gymraeg Benodedig a 7 Ysgol Gymraeg Draddodiadol. Mae'r mwyafrif o'r plant hyn yn dod o gartrefi lle nad yw'r iaith yn cael ei siarad ar yr aelwyd. Mae eu cyswllt â'r Gymraeg felly yn gyfyng i ffiniau'r ysgol yn unig. Er mwyn torri ar y berthynas seicolegol sy'n cysylltu iaith â dosbarth y mae'n hanfodol bod cyfleoedd ar gael i blant i gymdeithasu drwy'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol. Mae ymestyn datblygiad sgiliau a phrofiadau rhyngweithiol plant i feysydd hamdden yn allweddol i'w hyder ieithyddol.

c) Pobl Ifainc 11-25 oed

Gellid dadlau mai pobl ifainc yw cynulleidfa darged bwysica'r iaith Gymraeg a dylai cynllunio ar gyfer cynyddu eu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg fod yn flaenoriaeth i bob Menter Iaith yng Nghymru – a hynny mewn cydweithrediad â mudiadau a sefydliadau allweddol fel yr Urdd, Gwobr Dug Caeredin, Clybiau'r Ffermwyr Ifainc a Phartneriaeth Pobl Ifainc y Cyngor Sir. Mae dogfennau strategol gan Lywodraeth y Cynulliad fel *Iaith Pawb* ac *Ymestyn Hawliau* yn rhoi pwyslais mawr ar bwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith pobl ifainc:-

'Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol iawn, os yw'r Gymraeg yn mynd i ffynnu fod angen i bobl ifainc yn enwedig ddatblygu ymdeimlad o berchnogaeth o'r iaith a'i gweld fel ei hiaith hwy ac nid fel iaith yr ysgol a diwylliant yn unig' (Iaith Pawb)

Mae'r ffaith bod cynnydd sylweddol wedi bod yng nghanran a nifer y bobl ifainc sy'n gallu siarad Cymraeg yn ystod y genhedlaeth ddiwethaf yn tanlinellu pwysigrwydd rhoi'r gefnogaeth a'r cyfleoedd perthnasol i'r bobl ifainc hyn i allu defnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywyd.

Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae tua 30% neu 5,000 o bobl ifainc 11-18 oed Castell-nedd Port Talbot yn siarad Cymraeg sydd dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar draws pob oedran (18%). Mae'r arwyddion calonogol hyn yn cadarnhau pwysigrwydd darparu cyfleoedd cymdeithasol a chymunedol i bobl ifainc i gefnogi eu defnydd o'r iaith.

ch) Oedolion

Oedolion yw ffurfwyr barn cymdeithas ac o safbwynt creu momentwm o blaid addysg Gymraeg, trefnu a chefnogi gweithgareddau cymdeithasol, dysgu Cymraeg fel oedolion, cefnogi ymgyrchoedd iaith a lobïo gwneuthurwyr polisi, mae'r garfan hon yn allweddol i'w hennill. Mae i'r grŵp hwn arwyddocâd arbennig hefyd oherwydd ei fod yn cynnwys darpar-rieni sydd â'r potensial i drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.

d) Marchnata a Hyrwyddo

Mae angen dybryd i farchnata a hyrwyddo gwaith y Fenter a'r iaith Gymraeg mewn modd llawer mwy grymus a chyhoeddus. Dylai codi proffil a datblygu cynllun marchnata i'r Fenter fod yn fater o flaenoriaeth dros y misoedd nesaf. Y diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n cael ei gyflawni yw un o'r prif feirniadaethau sy'n cael eu hanelu at y Fenter – safbwynt a gafodd ei gadarnhau gan sawl ymatebydd yn y broses o baratoi ar gyfer llunio'r Cynllun Strategol. Fel y dywedodd un swyddog amlwg o'r Cyngor Sir – 'I'm not sure what the Menter does….it needs to improve its profile and get out and about more. It also needs to be part of a marketing scheme to de-mystify issues regarding the language'.

Mae marchnata effeithiol yn gallu cynyddu lefelau cefnogaeth a chyfranogiad gan wirfoddolwyr ac ennyn ewyllys da tuag at y Gymraeg gan bobl o bob cefndir ieithyddol. Rhaid i'r Fenter fod yn llawer mwy amlwg a rhagweithiol yn ei pherthynas â'r Cyngor Sir a chyrff allweddol eraill a chyfrannu mwy i feysydd polisi a chynlluniau strategol. Fel y nododd swyddog arall o'r Cyngor Sir – 'The lack of proactivity from Menter's perspective is disappointing….some of the opportunities presented to them have not been grasped. They are not adventurous enough in expanding their remit'.

dd) Addysg

Er bod addysg wedi ei grybwyll uchod yng nghyd-destun plant a phobl ifainc, dylai'r Fenter chwarae rhan amlwg yn natblygiad addysg Gymraeg yn y sir, nid yn unig o safbwynt addysg statudol ond hefyd addysg gymunedol a hyfforddiant yn y gweithle. Mae gwella sgiliau a hyder pobl wrth ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol, yn eu bywyd hamdden neu yn eu gwaith yn bwysig eithriadol. Mae cyfrifoldeb ar y Fenter i hyrwyddo addysg Gymraeg o'r crud i'r bedd gan lobïo am gynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer plant ac oedolion. Un gymwynas fawr allai'r Fenter ei wneud yw cynorthwyo'r Adran Addysg Gydol Oes i adnabod tiwtoriaid ac arweinwyr allai gynnig cyrsiau addysg gymunedol neu hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid hefyd gydweithio'n agos iawn gyda'r Ganolfan Iaith newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym Mhrifysgol Abertawe i hyrwyddo cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn y de-orllewin. Mae cyfle ar gael i'r Fenter sicrhau cytundeb gan y Ganolfan i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol i ddod â dysgwyr a siaradwyr Cymraeg at ei gilydd yn dilyn diddymu CYD. Mae cynorthwyo gyda darparu dosbarthiadau Cymraeg yn y gweithle a chyrsiau ymwybyddiaeth iaith i staff yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol hefyd yn opsiynau posibl.

e) Sector Preifat

Gan nad yw'r sector preifat yn cael ei effeithio gan Ddeddf Iaith 1993 y mae'n bwysig felly bod Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith busnesau a chwmnïau lleol a cheisio annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn eu hymwneud â'r sector preifat, sydd yn amrywio o siop gornel i fanc neu gwmni yswiriant lleol.

f) Gweinyddiaeth a Threfniadaeth

Mae'r adran hon yn allweddol i lwyddiant ac effeithiolrwydd Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot i'r dyfodol. Mae'r argymhellion yn cynnwys:-

* Cofrestru'r Fenter fel cwmni cyfyngedig drwy warant ac elusen

* Sefydlu Pwyllgorau Ardal

* Cryfhau aelodaeth y Pwyllgor Rheoli

* Cysoni disgrifiadau swyddi a chytundebau staff

* Sefydlu system o reoli perfformiad staff ar sail cynlluniau gwaith unigol

* Datblygu cynlluniau hyfforddi i'r staff a gwirfoddolwyr

* Cynhyrchu Llawlyfr Staff

* Datblygu hyfedredd ymhlith y staff i lunio ceisiadau am nawdd

* Sefydlu system ar gyfer monitro a gwerthuso

* Mabwysiadu cynllun rheolaeth ansawdd

* Ymateb i faterion cynllunio

* Ymateb i strategaethau ac ymgynghoriadau gan gyrff cyhoeddus

* Diweddaru'r Proffil Iaith Sirol

* Gweithredu fel canolfan wybodaeth ac adnoddau

Blaenoriaeth Strategol 1 – Plant Oed Meithrin

Prosiect	Targedau	Deilliannau	Partneriaid	Amserlen	Cost
Mabolgampau Meithrin	Cydweithio â Mudiad Ysgolion Meithrin i gynnal Mabolgampau Meithrin blynyddol	Gwneud y Gymraeg yn iaith fyw a hwylus i blant a'u rhieni mewn gweithgaredd llawn sbri	MYM TWF	Haf 2007	Amser staff yn unig
Stori Mewn Sach	Cydweithio â Mudiad Ysgolion Meithrin i gyflwyno storïau i blant a'u rhieni	Cyflwyno byd llyfrau i blant ac annog rhieini i ddarllen iddynt yn Gymraeg	MYM TWF Cyngor Llyfrau Cymraeg	Medi-Hydref 2007	Amser staff yn unig
Gŵyl Hwyl	Trefnu digwyddiad cyffrous i rieni a phlant sydd yn cynnwys canu, dawnsio, gêmau, cystadleuthau, consurwyr, stondinau etc.	Marchnata'r Gymraeg fel iaith fyrlymus a chodi ymwybyddiaeth plant a'u rhieni o'r gwasanaethau cefnogi sydd ar gael.	MYM TWF Bwrdd yr Iaith Paertneriaeth Plant Cyngor Sir CNPT	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Jamborî	Cynnal jamborî i blant cylchoedd meithrin fel rhan o Ŵyl Feithrin y sir yng nghwmni Martin Geraint neu artistiaid tebyg.	Creu bwrlwm a diddanwch hwyliog yn y Gymraeg a chyflwyno plant i wynebau cyfarwydd S4C.	MYM TWF S4C	Mehefin 2007	Amser staff yn unig
Cydweithio gyda TWF	Cydweithio gyda TWF i drefnu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth rhieni o fanteision magu eu plant yn ddwyieithog.	Annog trosglwyddiad iaith yn y teulu a hyrwyddo manteision dwyieithrwydd.	TWF MYM Bwrdd yr Iaith	Mawrth 2008	Amser staff yn unig

Cydweithio gyda Bwrdd yr Iaith ar y prosiect 'Kids – soak it up'.	Targedu rhieni er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o fanteision addysg ddwyieithog i'w plant	Hyrwyddo addysg Gymraeg ymhlith darpar-rieni a rhieni newydd	Bwrdd yr Iaith, TWF, MYM	Ebrill 2007	Amser staff yn unig
Rhwydwaith Darparwyr Addysg Feithrin	Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr addysg feithrin i gwrdd 3-4 gwaith y flwyddyn.	Rhannu arferion da o safbwynt defnydd o'r Gymraeg ymhlith y prif ddarparwyr sirol.	TWF, MYM, PPA, Cychwyn Cadarn, Homestart, Genesis.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig

Blaenoriaeth Strategol 2 - Plant Oed Cynradd 4-11

Prosiect	Targedau	Deilliannau	Partneriaid	Amserlen	Cost
Penodi Swyddog Cynradd	Sicrhau nawdd i benodi Swyddog Cynradd i gydweithio gydag Ysgolion Cymraeg y sir.	Darparu cyfleoedd allysgol i blant i ddefnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch hwyliog a chefnogol	Ysgolion Cynradd Cymraeg, yr Urdd, Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar y Sir	Hydref 2007	Cais am grant i ffynonellau nawdd amrywiol.
Sicrhau nawdd i gynnal astudiaeth beilot i asesu gwerth ieithyddol a chymdeithasol Clwb Gofal ar ôl ysgol	Sicrhau nawdd i gynnal clwb gofal dyddiol, cofrestredig allan o oriau ysgol mewn cysylltiad ag un o Ysgolion Cymraeg y sir.	Darparu gofal a chyfleoedd cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg i blant y tu allan i oriau ysgol	Ysgolion Cynradd Cymraeg. Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru	Mawrth 2008	Cais am grant i ffynonellau nawdd amrywiol.
Gweithdai Cynradd	Cynyddu'r ddarpariaeth allan o oriau ysgol ar gyfer	Darparu cyfleoedd i blant gymdeithasu, chwarae a dysgu drwy	Ysgolion Cynradd Cymraeg	Mawrth 2008	£500

	plant cynradd drwy drefnu 4 gweithgaredd y flwyddyn mewn cydweithrediad ag Ysgolion Cynradd Cymraeg y cylch, megis gweithdai drama, cerddoriaeth, dawns neu chwaraeon	gyfrwng y Gymraeg gan wneud yr iaith yn hwyl i blant.			
Cwisiau Cynradd	Sefydlu cystadleuaeth rhwng Ysgolion Cynradd Cymraeg y cylch drwy gynnal cwis cyffredinol ym mhob ysgol a rownd derfynol rhwng y timau gorau.	Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth a chyflwyno gwybodaeth gyffredinol i blant yn y Gymraeg.	Ysgolion Cynradd Cymraeg	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Cystadleuthau Chwaraeon	Cynnal tair cystadleuaeth chwaraeon rhwng Ysgolion Cynradd y sir mewn cydweithrediad â'r Urdd.	Ymestyn defnydd o'r iaith y tu allan i'r dosbarth a'i chyflwyno i feysydd hamdden poblogaidd	Ysgolion Cynradd Cymraeg, Yr Urdd, Cyngor Chwaraeon Cymru, Rygbi'r Ddraig.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Beirdd neu awduron ar daith	Trefnu bod rhai o feirdd ac awduron poblogaidd plant yn ymweld ag Ysgolion Cynradd Cymraeg y sir – un ymweliad y tymor	Codi ymwybyddiaeth plant o lenyddiaeth Gymraeg a'u cyflwyno i awduron mwyaf cyfarwydd Cymru.	Ysgolion Cynradd Cymraeg, Academi, Cyngor Llyfrau Cymraeg.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Ymweliadau gan enwogion o fyd chwaraeon a'r teledu.	Trefnu cyfres o ymweliadau yn ystod y flwyddyn gan enwogion o fyd chwaraeon a'r teledu.	Defnyddio enwogion fel modelau rôl i hyrwyddo delwedd o'r Gymraeg. sydd yn ffasiynol a	Ysgolion Cynradd Cymraeg, Undeb Rygbi Cymru, y Gweilch, CP Abertawe, Pobl y	Mawrth 2008	Amser staff yn unig

	Sicrhau bod y daith yn cynnwys pob un o'r Ysgolion Cynradd Cymraeg – un y tymor	phoblogaidd. Chwalu'r canfyddiad bod y Gymraeg yn hen ffasiwn a thraddodiadol.	Cwm, Planed Plant.		
Cynlluniau Chwarae	Cynnal cynlluniau chwarae i blant cynradd adeg gwyliau ysgol mewn 3 lleoliad ar draws y sir.	Darparu cyfleoedd i blant ddefnyddio'r iaith mewn awyrgylch gymdeithasol y tu allan i sefyllfa ysgol.	Ysgolion Cynradd Cymraeg, yr Urdd, Cyngor Sir CNPT.	Awst, Hydref 2007 a Chwefror 2008.	Amser staff yn unig
Caffi Syber	Sicrhau bod y caffi syber yn parhau i ymweld ag Ysgolion Cynradd yr ardal - pedair ysgol bob tymor	Cyflwyno technoleg a gêmau cyfrifiadurol i blant mewn awyrgylch Gymraeg.	Ysgolion Cynradd, Cyngor Sir CNPT.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Clwb Bore Sadwrn	Sefydlu Clwb Bore Sadwrn mewn man canolog yn y sir a chynnig amrywiol weithgareddau i blant e.e chwaraeon, gweithdai, cerddoriaeth, gêmau, tripiau etc	Darparu cyfleoedd i blant i ddefnyddio'u Cymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol.	Ysgolion Cynradd Cymraeg, yr Urdd, Cyngor Sir CNPT.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Canolfan Hwyrddyfodiaid Ystalyfera	Cydweithio'n agos gyda'r Ganolfan Hwyrddyfodiaid a chydweithio gyda'r plant i gynhyrchu sioe	Datblygu sgiliau iaith hwyrddyfodiaid i'r sir a rhoi'r hyder iddynt ei defnyddio'n gyhoeddus	Canolfan Hwyrddyfodiaid Ystalyfera	Mawrth 2008	Amser staff yn unig

Blaenoriaeth Strategol 3 - Pobl Ifainc 11-25 Oed

Prosiect	Targedau	Deilliannau	Partneriaid	Amserlen	Cost
Hyrwyddo cerddoriaeth gyfoes Gymraeg ymhlith disgyblion ysgol.	Trefnu bod grwpiau roc Cymraeg yn ymweld ag ysgolion uwchradd y cylch fel rhan o daith Popty	Cydweithio ag asiantaethau gwahanol i godi ymwybyddiaeth o'r sîn roc Gymraeg.	Bwrdd yr Iaith, Mentrau Iaith Cymru, Cerddoriaeth Gymunedol Cymru, Radio Cymru, S4C.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Brwydr y Bandiau	Sicrhau bod grwpiau roc Cymraeg o'r sir yn cystadlu yn 'Brwydr y Bandiau' Radio Cymru.	Annog pobl ifainc i sefydlu bandiau a'u cynorthwyo i ddatblygu hyder i gyfansoddi caneuon yn Gymraeg.	Mentrau Iaith Cymru, Cerddoriaeth Gymunedol Cymru, Radio Cymru, S4C.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Hyrwyddo gigs Cymraeg	Trefnu dwy gig Gymraeg a chefnogi gigiau a drefnir gan Fentrau Iaith cyfagos a mudiadau eraill.	Codi ymwybyddiaeth o'r sîn roc Gymraeg a rhoi cyfleoedd i bobl ifainc gymdeithasu yn yr iaith.	Menter Iaith Abertawe, Menter Iaith Llanelli, Menter Iaith Dyffryn Aman, Menter Iaith Brycheiniog, yr Urdd, Cymdeithas yr Iaith.	Mawrth 2008	Hunan gynhaliol. Amser staff yn unig
Creu DVD ar ymwybyddiaeth iaith i bobl ifainc.	Creu DVD ar ymwybyddiaeth iaith wedi ei anelu at bobl ifainc yr ardal a'i gyflwyno mewn ysgolion a chlybiau.	Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd defnyddio'r iaith yn gymdeithasol.	Partneriaeth Pobl Ifainc Nedd Port Talbot, Bwrdd yr Iaith, Tinopolis.	Mehefin 2007	Nawdd gan Gyngor Sir Castell-nedd Port Talbot Amser staff yn unig
Creu rhwydwaith o ddarparwyr ieuenctid.	Creu rhwydwaith o ddarparwyr gwasanaethau ieuenctid y sir a chyfarfod 3-4 gwaith y flwyddyn.	Rhannu arferion da a threfnu cynlluniau ar y cyd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith siaradwyr yr iaith a'r di-Gymraeg.	Partneriaeth Pobl Ifainc Nedd Port Talbot, Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir, yr Urdd, Gwobr Dug Caeredin, Prosiect PONTY, Clybiau Chwaraeon.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig

Cydweithio gydag Ysgolion Uwchradd y Sir	Targedu disgyblion ail-iaith er mwyn rhoi cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r iaith mewn awyrgylch gymdeithasol	Codi ymwybyddiaeth disgyblion ail iaith o fanteision gallu siarad dwy iaith.	Bwrdd yr Iaith, Ysgolion Uwchradd y sir.	Ebrill 2007	Amser staff yn unig
Cymreigio Clybiau Chwaraeon yr ardal.	Targedu clybiau chwaraeon ardaloedd Cymreiciaf y sir a'u hannog i gynhyrchu rhaglenni, manylion tîm a hysbysebion dwyieithog.	Codi ymwybyddiaeth clybiau chwaraeon yr ardal o'u cyfrifoldeb tuag at y Gymraeg.	Clybiau chwaraeon lleol, Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Bêl Droed Cymru, Undeb Hoci Cymru, Rygbi'r Ddraig, S4C, BBC.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Creu cyswllt ag Ysgolion Uwchradd y sir.	Parhau â'r cyswllt agos gydag Ysgol Gyfun Ystalyfera a datblygu cysylltiadau gydag ysgolion Cefn Saeson a Glan Afan.	Ymgynghori gyda phobl ifainc ynglŷn â darparu cyfleoedd iddynt ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth.	Ysgol Gyfun Ystalyfera, Ysgol Cefn Saeson, Ysgol Glan Afan.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Sefydlu Clybiau Ieuenctid/ Aelwydydd Ieuenctid	Sefydlu 3 Clwb Ieuenctid/Aelwyd ar draws y sir a threfnu rhaglen o weithgareddau deniadol – un yn GCG.	Darparu cyfleodd i bobl ifainc gymdeithasu drwy'r Gymraeg.	Ysgolion Uwchradd, yr Urdd, Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir, Cynllun Gweithredu Iaith GCG.	Mawrth 2008	£300
Sefydlu Fforwm Ieuenctid yn Ysgol Ystalyfera.	Sefydlu Fforwm Drafod a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob blwyddyn ysgol fel rhan o gynllun CEI – cadwch eich iaith..	Trafod syniadau a chytuno ar raglen o weithgareddau i'w cynnal yn yr ysgol ac yn gymdeithasol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg.	Ysgol Gyfun Ystalyfera.	Ebrill 2007	Amser staff yn unig
Gwobr Dug Caeredin	Cydweithio gydag Ysgol Ystalyfera i ddarparu cyfleodd i	Datblygu sgiliau amrywiol drwy gyfrwng y Gymraeg a chael	Ysgol Gyfun Ystalyfera, Cynllun Gwobr Dug Caeredin.	Medi 2007	Amser staff yn unig

	ddisgyblion yr ysgol weithio tuag at wobrau'r cynllun.	cydnabyddiaeth o'r cyflawniadau.			
Cydweithio â Swyddog Datblygu Dwyieithrwydd Rhwydwaith Dysgu Newydd Nedd Port Talbot	Cydweithio gyda 'r Swyddog Datblygu Dwyieithrwydd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith myfyrwyr Coleg Nedd Port Talbot.	Darparu cyfleoedd i gyn-ddisgyblion Ysgol Ystalyfera a disgyblion ail-iaith ysgolion uwchradd eraill y sir i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u gwaith cwrs a gyda'i gilydd yn gymdeithasol.	Coleg Nedd Port Talbot, Rhwydwaith Dysgu Newydd Nedd Port Talbot, Bwrdd yr Iaith.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Gweithdai	Cynnal 4 gweithdy ar gyfer pobl ifanc, megis celf a chrefft, dawns, cerdd, drama, cerddoriaeth roc etc	Darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau amrywiol drwy gyfrwng y Gymraeg.	Ysgolion Uwchradd, yr Urdd, Gwobr Dug Caeredin, Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir.	Mawrth 2008	£500
Cwmni Theatr Ieuenctid	Sefydlu Cwmni Theatr Ieuenctid yn ardal Dyffryn Aman a phen uchaf Cwmtawe.	Rhoi cyfleoedd i bobl ifainc ddatblygu eu sgiliau ym myd y theatr a pherfformio drwy gyfrwng y Gymraeg.	Cynllun Gweithredu Iaith GCG, Theatr Genedlathol Cymru, Coleg Castell Nedd Port Talbot, Ysgol Ystayfera, Menter Iaith Brycheiniog.	Hydref 2007	Amser staff yn unig
Gweithgareddau Chwaraeon a Hamdden	Cynnal 2 weithgaredd chwaraeon a hamdden ar gyfer pobl ifanc.	Datblygu sgiliau hamdden a chwaraeon yn y Gymraeg.	Ysgolion Uwchradd, Cyngor Chwaraeon Cymru, Clybiau Chwaraeon lleol.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Parhau i gydlynu a chynhyrchu papur newyddion ieuenctid 'Gair y Ddraig'.	Sefydlu panel golygyddol a chynhyrchu tri rhifyn y flwyddyn gan sicrhau mewnbwn gan bobl ifainc yr ardal.	Hybu darllen a datblygu sgiliau ysgrifennu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Ysgolion Uwchradd, mudiadau ieuenctid.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Cydweithio â Gyrfa	Cynnig cyfnod o	Rhoi cyfleoedd i bobl	Gyrfa Gorllewin	Mawrth 2008	Amser staff yn unig

Gorllewin Cymru.	brofiad gwaith i hyd at 2 ddisgybl yn flynyddol a chynnal cyfweliadau ffug fel rhan o ddiwrnod profiad gwaith Gyrfa Gorllewin Cymru.	ifainc gael profiad gwaith gyda chwmni sydd yn gweithio drwy'r Gymraeg a'u paratoi ar gyfer byd gwaith.	Cymru, Ysgol Gyfun Ystalyfera a Choleg Castell-nedd Port Talbot.		

Blaenoriaeth Strategol 4 – Oedolion

Prosiect	Targedau	Deilliannau	Partneriaid	Amserlen	Cost
Sefydlu Gŵyl Gymraeg	Cynnal Gŵyl Gymraeg gyda phwyslais arbennig ar weithgareddau i'r teulu ac i blant a phobl ifanc.	Codi proffil yr iaith a dod â chymunedau'r ardal at ei gilydd.	Ysgolion, Mudiadau Cymraeg, Cyngor y Celfyddydau.	Gorffennaf 2007	**£500**
Trefnu Gweithgareddau Cymdeithasol	Cynnal cyfres o weithgareddau cymdeithasol ar draws y sir i bobl o bob oed - chwech mewn blwyddyn.	Darparu cyfleoedd i bobl gwrdd a chymdeithasu yn y Gymraeg. Hyrwyddo artistiaid Cymraeg poblogaidd.	Canolfannau cymdeithasol, clybiau chwaraeon, neuaddau pentref, Academi, Cyngor y Celfyddydau.	Mawrth 2008	£250
Dramâu Teithiol	Sicrhau bod cwmnïau theatr cenedlaethol yn ymweld â'r ardal yn rheolaidd.	Codi diddordeb yn y celfyddydau ac annog pobl i fynychu dramâu Cymraeg.	Cwmni Theatr Genedlaethol Cymru, Cwmni Bara Caws, Cwmni Arad Goch, Cyngor y Celfyddydau.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Cwisiau Pentrefol	Trefnu cystadleuaeth gwis mewn nifer o	Cyfle i siaradwyr Cymraeg gymdeithasu	Mudiadau a chymdeithasau lleol.	Ionawr/Chwefror 2008	Amser staff yn unig

	bentrefi gyda thimoedd lleol yn mynd benben â'i gilydd – yr enillydd yn cynrychioli'r pentref yn y rownd derfynol.	â'i gilydd ar lefel bentrefol a chodi hwyl ar ffurf cwis gwybodaeth gyffredinol.			
Cwis Chwaraeon	Parhau i gynnal y cwis chwaraeon rhwng clybiau chwaraeon yr ardal.	Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y maes chwaraeon.	Clybiau chwaraeon.	Mai/Mehefin 2007	Amser staff yn unig
Gweithgareddau Hamdden	Darparu amrywiaeth o glybiau chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg e.e sboncen, cerdded, beicio, pêl droed, badminton, pêl fasged.	Rhoi cyleoedd i oedolion fwynhau gweithgareddau hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg.	Canolfannau Hamdden, Cyngor Chwaraeon Cymru, Cyngor Sir NPT, Yr Urdd.	Medi 2007	Amser staff yn unig
Hanes a llên.	Trefnu cyfres o sgyrsiau ar hanes a llenyddiaeth Gymraeg - o leiaf tair mewn blwyddyn.	Codi ymwybyddiaeth o hanes a llenyddiaeth Cymru.	Mudiadau a chymdeithasau lleol.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig

Blaenoriaeth Strategol 5 – Marchnata a Hyrwyddo

Prosiect	Targedau	Deilliannau	Partneriaid	Amserlen	Cost
Datblygu Cynllun Marchnata	Llunio Cynllun Marchnata cynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo'r Fenter a'r Gymraeg.	Codi proffil y Fenter yn sirol a chenedlaethol a hyrwyddo manteision dwyieithrwydd.	Bwrdd yr Iaith, Fforwm Iaith Sirol, Cyngor Sir Nedd Port Talbot, Mudiadau Cymraeg, Fforwm Iaith Sirol.	Medi 2007	Amser staff yn unig

Codi Proffil y Fenter	Ail frandio'r Fenter drwy fabwysiadu delwedd gorfforaethol newydd a chychwyn ar ymgyrch farchnata gyhoeddus.	Codi proffil y Fenter yn sirol a chenedlaethol a sicrhau mwy o gefnogaeth iddi gan wirfoddolwyr lleol.	Mudiadau a chymdeithasau Cymraeg, y wasg a'r cyfryngau, Fforwm Iaith Sirol, Papurau Bro.	Medi 2007	Amser staff yn unig
Ymgynghori â chymunedau lleol	Fel rhan o'r ail-frandio a lansio'r Cynllun Corfforaethol newydd dylid cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ym mhob cwr o'r sir gan wahodd cynrychiolwyr o wahanol fudiadau a chymdeithasau Cymraeg i fod yn bresennol.	Codi proffil y Fenter a sicrhau perchnogaeth ar y Cynllun Corfforaethol newydd. Adnabod anghenion lleol.	Bwrdd yr Iaith, Fforwm Iaith Sirol, Mudiadau a Chymdeithasau Cymraeg, Papurau Bro.	Ebrill 2007	Amser staff yn unig
Marchnata Gwasanaethau Cymraeg	Hybu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth siaradwyr Cymraeg o'r gwasanaethau Cymraeg/dwyieithog sydd ar gael gan gyrff cyhoeddus a phreifat.	Sicrhau bod mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaethau hyn er mwyn cyfiawnhau'r ddarpariaeth a chynyddu'r galw am staff dwyieithog.	Bwrdd yr Iaith, Cyrff Cyhoeddus, Mudiadau a Chymdeithasau Cymraeg lleol, Y Negesydd, Papurau Bro.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Cynhyrchu Cylchlythyr Newyddion	Cynhyrchu Cylchlythyr Newyddion y Fenter bob tymor a'i ddosbarthu'n helaeth ymhlith cymdeithasau, mudiadau, sefydliadau ac unigolion ar draws y sir.	Codi proffil y Fenter, rhannu gwybodaeth am y gwaith a gyflawnir a hysbysebu digwyddiadau ar gyfer y dyfodol.	Cyrff Cyhoeddus, Mudiadau a Chymdeithasau Cymraeg lleol, Ysgolion, Papurau Bro, Papurau Saesneg lleol	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Gweithredu fel	Gweithredu fel canolfan	Datblygu'r swyddfa yn	Mudiadau a	Mawrth 2008	Amser staff yn unig

Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth	adnoddau a gwybodaeth i'r cyhoedd gan gynnig cymorth a chyngor ar unrhyw fater yn ymwneud â'r Gymraeg	ganolfan i ddarparu cymorth, gwybodaeth ac adnoddau megis cyfieithu a llungopïo fyddai'n arwain at gynnydd yn y defnydd o'r iaith	chymdeithasau Cymraeg.		
Creu Arddangosfa Symudol i Hyrwyddo'r Fenter	Creu a gosod arddangosfa symudol i'r Fenter mewn pedwar lleoliad cyhoeddus	Codi proffil yr iaith a marchnata'r Fenter yn sirol	Canolfannau cymdeithasol.	Mawrth 2008	£750
Cysylltiadau Cyhoeddus	Marchnata gwaith y Fenter drwy ryddhau datganiadau i'r wasg cyson a sicrhau sylw aml ar y cyfryngau	Hybu delwedd a chodi ymwybyddiaeth o waith y Fenter a'i bodolaeth yn y wasg a'r cyfryngau Cymraeg a Chymreig	Y wasg a'r cyfryngau lleol a chenedlaethol.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
'Y Negesydd'	Parhau i gynhyrchu 'Y Negesydd' a'i ddefnddyio i hyrwyddo amcanion y Fenter.	Cynyddu'r niferoedd sydd yn darllen yn y Gymraeg a chodi proffil y Fenter.	Evening Post.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
E-chlysur	Ehangu'r niferoedd o bobl sydd ar fâs data'r cynllun.	Sicrhau bod mwy o bobl yn cael gwybodaeth gyson am ddigwyddiadau Cymraeg yn eu hardaloedd.	Mudiadau a chymdeithasau Cymraeg.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Datblygu gwefan y Fenter	Diwygio a diweddaru gwefan Menter Iaith Castell Nedd Port Talbot	Cyflwyno newyddion a gwybodaeth ar y we fyd eang, yn ogystal â chynnwys digwyddiadur lleol.	Mentrau Iaith Cymru, Bwrdd yr Iaith.	Medi 2007	Amser staff yn unig
Erthyglau Cymraeg	Sicrhau bod erthyglau Cymraeg yn parhau i fod yn nodwedd o	Codi proffil yr iaith ym maes chwaraeon a'r wasg boblogaidd.	Clwb Rygbi'r Gweilch, Tîm Pêl Droed Abertawe, Evening	Medi 2008	Amser staff yn unig

	raglenni'r Gweilch a thîm pêl droed Abertawe ac annog yr Evening Post i gynnwys erthygl Gymraeg wythnosol.		Post.		

Blaenoriaeth Strategol 6 – Addysg

Prosiect	Targedau	Deilliannau	Partneriaid	Amserlen	Cost
Marchnata Addysg Gymraeg	Lansio ymgyrch farchnata i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg gan gynnwys cynllun - 'Symud Ymlaen'	Sicrhau cynnydd yn y niferoedd sydd yn mynychu ysgolion Cymraeg y sir.	Adran Addysg y Cyngor Sir, Bwrdd yr Iaith, MYM, TWF, Rhieni Dros Addysg Gymraeg.	Medi 2007	Amser staff yn unig
Hyrwyddo Addysg Feithrin Gymraeg	Parhau i gydweithio gyda MYM a Bwrdd yr Iaith ar y cynllun 'Y Cychwyn Gorau' i dargedu rhieni newydd.	Codi ymwybyddiaeth rhieni o fanteision addysg feithrin Gymraeg.	Mudiad Ysgolion Meithrin, TWF, Bwrdd yr Iaith, Fforwm Iaith Sirol.	Ebrill 2007	Amser staff yn unig
Dilyniant Addysg Gymraeg	Hyrwyddo ymgyrch i danlinellu pwysigrwydd dilyniant addysg Gymraeg o'r sector cynradd i'r uwchradd - yn arbennig ym mhen uchaf Dyffryn Aman a Chwmtawe.	Sicrhau cynnydd yn y nifer o blant sydd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector uwchradd.	Ysgol Ystalyfera, Ysgol Gyfun Dyffryn Aman, RHAG, Bwrdd yr Iaith, Adran Addysg y Cyngor Sir, Cynllun Gweithredu Iaith GCG.	Medi 2007	Amser staff yn unig

Ymchwil Addysg	Cynnal prosiect ymchwil ymhlith rhieni plant cynradd GCG,Cwmgors Cwmllynfell a Brynaman ar eu hagweddau tuag at addysg uwchradd Gymraeg.	Canfod y rhesymau pam mae llai o blant o'r cymunedau Cymraeg hyn yn mynd i Ysgol Ystalyfera nag oedd ers talwm.	Cynllun Gweithredu Iaith GCG, Bwrdd yr Iaith, Cyngor Sir NPT, Ysgol Gyfun Ystalyfera, Ysgol Gyun Dyffryn Aman.	Hydref 2007	£1,000
Llinell Gefnogi Gwaith Cartref	Marchnata llinell gymorth gwaith cartref Bwrdd yr Iaith ymhlith rhieni di-Gymraeg.	Lleihau pryderon rhieni di-Gymraeg ynglŷn â'u gallu i gynorthwyo'u plant gyda gwaith cartref.	Bwrdd yr Iaith, Ysgolion Cymraeg.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Ymgynghori gyda'r rhwydwaith o Benaethiaid yr Ysgolion Cymraeg – 'Y Pentan'.	Datblygu cyswllt agos gydag aelodau 'Y Pentan' a sicrhau cyfleoedd achlysurol i annerch y grŵp a thrafod syniadau.	Sicrhau cyswllt agos rhwng y Fenter a'r Ysgolion Cymraeg a thrafod ffyrdd i gydweithio er mwyn ymestyn profiadau ieithyddol y plant.	Ysgolion Cymraeg y Sir.	Mawrth 2008	Amaser staff yn unig
Cyrsiau Addysg Gymunedol	Trefnu 4 cwrs blasu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn mewn amrywiol bynciau – yn arbennig mewn cymunedau dwyieithog.	Codi hyder siaradwyr Cymraeg a datblygu eu sgiliaiu drwy'r Gymraeg. Ehangu'r ddarpariaeth gymunedol sydd ar gael i oedolion.	Rhwydwaith Dysgu Newydd Nedd Port Talbot, Coleg Nedd Port Talbot, Fforwm Iaith, Cynllun Gweithredu Iaith GCG, mudiadau a chymdeithasau Cymraeg.	Medi /Hydref 2007	Amser saff yn unig.
Hyfforddi Hyfforddwyr Chwaraeon	Darparu hyfforddiant i hyfforddwyr drwy gyfrwng y Gymraeg mewn gweithgaredd fel	Datblygu sgiliau siaradwyr Cymraeg ac ymestyn y ddarpariaeth hamdden	Cyngor Chwaraeon Cymru, Cyngor Sir Nedd Port Talbot, Coleg Nedd Port	Medi 2007	Amser saff yn unig.

	nofio, gymnasteg, yoga, cadw'n heini, pêl droed. Sicrhau cytundeb gan Goleg CNPT i ddarparu cyrsiau ar eu rhan.	sydd ar gael drwy'r Gymraeg. Sicrhau bod yr iaith yn chwarae rhan amlg mewn gweithgaredd poblogaidd fel chwaraeon.	Talbot.		
Dysgwyr	Darparu cyfleoedd cymdeithasol i ddysgwyr gwrdd a chymdeithasu drwy'r Gymraeg – e.e boreau coffi, clybiau darllen, adloniant Cymraeg, cwisiau.	Codi hyder a sgiliau ieithyddol dysgwyr a dod a siaradwyr Cymraeg a dysgwyr at ei gilydd.	Canolfan Iaith Prifysgol Abertawe, Fforwm Iaith, Bwrdd yr Iaith.	Medi 2007	Amser staff yn unig
Cyrsiau Cymraeg yn y gweithle	Cydweithio gyda Chanolfan Iaith Prifysgol Abertawe i ddarparu cyrsiau Cymraeg yn y gweithle i staff yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol.	Datblygu hyder a sgiliau iaith staff yn y sector cyhoeddus a gwirfoddol.	Canolfan Iaith Prifysgol Abertawe.	Medi 2007	Amser staff yn unig
Cyrsiau Ymwybyddiaeth Iaith	Sicrhau nawdd i ddarpar cyrsiau ymwybyddiaeth iaith i weithwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.	Codi ymwybyddiaeth staff o bwysigrwydd y Gymraeg a newid eu hagweddau tuag at ei defnydd.	Bwrdd yr Iaith, Adran Addysg Gydol Oes y Cynulliad, Canolfan Iaith Prifysgol Abertawe.	Medi 2007	Amser staff yn unig

Blaenoriaeth Strategol 7 - Sector Preifat

Prosiect	Targedau	Deilliannau	Partneriaid	Amserlen	Cost
Hyrwyddo Cynllun 'Iaith Gwaith'	Dosbarthu bathodynnau ac arwyddion Iaith Gwaith i unigolion, busnesau a sefydliadau lleol a chofnodi'r manylion ar dempled safonol a rhannu'r wybodaeth gyda Bwrdd yr Iaith.	Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn adnabod ei gilydd a chodi proffil yr iaith ymhith busnesau a sefydliadau cyhoeddus.	Bwrdd yr Iaith, Fforwm Iaith Sirol, Cynllun Gweithredu Iaith GCG, Busnesau lleol.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Cydlynu wythnos 'Cymraeg yn Gyntaf'.	Hyrwyddo ymgyrch i annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn siopau a busnesau.	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector fusnes a chodi proffil gweledol yr iaith.	Bwrdd yr Iaith, Siambr Fasnach, Sector Busnes, Fforwm Iaith Sirol, Llygad Busnes, Cynllun Gweithredu Iaith GCG.	Hydref 2007	Amser staff yn unig
Noson Wobrwyo i Fusnesau	Trefnu a chynnal noson wobrwyo i'r busnesau gorau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy'r sir.	Codi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd yn y sector fusnes.	Bwrdd yr Iaith, Siambr Fasnach, Sector Busnes, Fforwm Iaith Sirol, Llygad Busnes.	Tachwedd 2007	Amser staff yn unig
Grantiau Hyrwyddo	Parhau i hybu 'Grant Hyrwyddo' Bwrdd yr Iaith ymysg busnesau lleol drwy ei hysbysebu yn y Negesydd, ar wefan y Fenter a Llygad Busnes.	Codi ymwybyddiaeth busnesau o'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer ymestyn y defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat.	Bwrdd yr Iaith, Llygad Busnes, Cyswllt Busnes.	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Sefydlu Cwlwm Busnes	Ymgynghori gyda busnesau lleol i	Rhoi cyfleoedd i fusnesau ddod at ei	Bwrdd yr Iaith, Menter a Busnes, Siambr	Mawrth 2008	Amser staff yn unig

	asesu'r galw am sefydlu Cwlwm Busnes Cymraeg yn y sir. Ymateb yn gadarnhaol petai galw.	gilydd i rwydweithio a rhannu profiadau dry gyfrwng y Gymraeg.	Fasnach, Busnesau lleol.		

Blaenoriaeth Strategol 8 – Gweinyddiaeth a Threfniadaeth

Prosiect	Targedau	Deilliannau	Partneriaid	Amserlen	Cost
Cofrestru'r Fenter fel cwmni cyfyngedig drwy warant	Cwblhau'r broses erbyn Ebrill 2007	Cryfhau statws y Fenter ac amddiffyn aelodau'r cwmni rhag erledigaeth gyfreithiol.	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol CNPT, Tŷ'r Cwmniau.	Ebrill 2007	Amser staff yn unig
Cofrestru'r Fenter fel elusen	Cwblhau'r broses erbyn Mehefin 2007	Cryfhau statws y Fenter ac ehangu'r cyfleoedd i sicrhau nawdd ychwanegol gan ymdiriedolaethau ac elusennau.	Y Comisiwn Elusennau, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol CNPT.	Mehefin 2007	Amser staff yn unig
Datblygu Cynllun Strategol	Cwblhau'r Cynllun Strategol ac ymgynghori'n eang ar ei gynnwys ymhlith cymunedau'r ardal.	Codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Strategol a sicrhau perchnogaeth ohono gan gymunedau'r ardal.	Cwmni Sbectrwm, cymunedau lleol, mudiadau a chymdeithasau.	Ebrill 2007	Amser staff yn unig
Sefydlu Pwyllgorau Ardal	Sefydlu Pwyllgorau Ardal er mwyn gweithredu fel dolen gyswllt rhwng y Fenter a chymunedau lleol a	Sicrhau gwell llinellau cyswllt rhwng y Fenter a'r ardal a wasanaethir ganddi a chynrychioleth decach	Pwyllgor Rheoli MICNPT	Ebrill 2007	Amser staff yn unig

	sicrhau cynrychiolaeth ohonynt ar y Pwyllgor Rheoli.	o'r cymunedau hyn ar y Pwyllgor Rheoli.			
Cryfhau'r Pwyllgor Rheoli	Ehangu'r nifer o aelodau gan sicrhau cynrychiolaeth o bob cwr o'r sir a phob maes diddordeb.	Sicrhau perchnogaeth ehangach ar waith y Fenter a chryfhau'r llinellau cyswllt â chymunedau lleol.	Pwyllgor Rheoli MICNPT.	Mehefin 2007	Amser staff yn unig
Adolygu cytundebau a disgrifiadau swydd y staff.	Cwblhau'r gwaith o adolygu cytundebau a disgrifiadau swydd bob aelod o staff llawn amser a rhan-amser.	Sefydlu fframwaith gyfreithiol i'r berthynas rhwng y cyflogwyr, sef y Pwyllgor Rheoli, a'r staff. Dileu ansicrwydd ymhlith y staff.	Pwyllgor Rheoli MICNPT.	Ebrill 2007	Amser staff yn unig
Rheoli Perfformiad Staff	Mabwysiadu system o reoli perfformiad staff i'w adolygu yn chwarterol.	Gwella perfformiad staff a chryfhau'r llinellau atebolrwydd rhwng staff a'r Pwyllgor Rheoli.	Pwyllgor Rheoli MICNPT.	Ebrill 2007	Amser staff yn unig
Cynlluniau Gwaith Staff	Datblygu a chytuno ar gynlluniau gwaith manwl i'r staff a'u hadolygu'n chwarterol yn erbyn targedau clir.	Gwella perfformiad staff a sefydlu system i fesur deilliannau ieithyddol a chymdeithasol.	Pwyllgor Rheoli MICNPT.	Ebrill 2007	Amser staff yn unig
Cynhyrchu Llawlyfr Staff	Cynhyrchu Llawlyfr Staff i gynnwys manylion am holl bolisïau a gweithdrefnau'r Fenter.	Sicrhau bod y staff yn ymwybodol o bolisïau'r Fenter a'u bod wedi eu rhestru mewn Llawlyfr hylaw a chyfleus.	Pwyllgor Rheoli MICNPT.	Hydref 2007	Amser staff yn unig
Cynllun Hyfforddiant Staff	Datblygu cynlluniau hyfforddiant unigol i bob aelod o staff i'w hadolygu'n flynyddol.	Gwella sgiliau a hunan-hyder staff. Sicrhau allbynnau mwy effeithiol.	Pwyllgor Rheoli MICNPT.	Mehefin 2007	Amser staff yn unig
Monitro a Gwerthuso	Datblygu gwell system ar gyfer monitro a	Sirhau bod y buddsoddiad a wneir o	Pwyllgor Rheoli MICNPT.	Mai 2007	Amser staff yn unig

	gwerthuso prosiectau sydd yn seiliedig ar fesur eu impact ieithyddol.	ran amser ac arian yn talu ar ei ganfed yn ieithyddol.			
Rheolaeth Ansawdd	Mabwysiadu system rheolaeth ansawdd PQASSO (Practical Quality Assurance System for Small Organisations) a threfnu sesiwn hyfforddiant i'r staff a'r Pwyllgor Rheoli.	Gwella safon y gwasanaeth a ddarperir gan y Fenter. Sicrhau gwell defnydd o adnoddau a gwell rheolaeth ariannol.	Pwyllgor Rheoli MICNPT	Medi 2007	Amser staff yn unig
Monitro Incwm a Gwariant	Sicrhau bod cyfarfodydd misol yn digwydd rhwng Swyddog Busnes y Fenter a'r Trysorydd er mwyn cynnal adolygiad cyson o incwm a gwariant.	Sicrhau gwell rheolaeth ar gyllideb y Fenter a defnydd mwy effeithiol o arian cyhoeddus.	Pwyllgor Rheoli MICNPT	Ebrill 2007	Amser staff yn unig
Adnabod Ffynonellau Nawdd Eraill	Datblygu hyfedredd y staff i adnabod ffynonellau nawdd eraill a llunio ceisiadau llwyddiannus.	Lleihau dibyniaeth y Fenter ar grantiau craidd o nifer cyfyngedig o ffynonellau ac ymestyn y capasiti i ddenu nawdd ychwanegol.	Pwyllgor Rheoli MICNPT	Medi 2007	Amser staff yn unig
Ymateb i Strategaethau ac Ymgynghoriadau	Datblygu hyfedredd y staff i ymateb i ymgynghoriadau a thrafodaethau strategol gan y Cyngor Sir a	Codi proffil y Fenter a dylanwadu ar feysydd polisi o safbwynt y Gymraeg.	Pwyllgor Rheoli MICNPT	Medi 2007	Amser staff yn unig

	Llywodraeth y Cynulliad				
Ymateb i ganllawiau Cynllun Unedol y Cyngor Sir	Gofyn i ddatblygwyr tai i gynnal asesiad impact ieithyddol ar y gymuned cyn cychwyn ar waith adeiladu neu archfarchnad i gyfrannu'n ariannol i weithgareddau ieithyddol lleol a bod eu staff cownter yn siarad Cymraeg.	Gwneud defnydd o'r canllawiau a geir yn y Cynllun Unedol er mwyn sicrhau buddiannau cadarnhaol i'r iaith.	Adran Gynllunio CSCNPT, Pwyllgor Rheoli MICNPT Staff y Fenter	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Paratoi Canllawiau i Ddatblygwyr Tai	Paratoi canllawiau i ddatblygwyr tai i'w cynorthwyo i gynnal asesiad impact ieithyddol gan restru prosiectau posibl y gellid eu hariannu megis cylch meithrin neu ganolfan ieuenctid.	Sicrhau bod datblygwyr tai yn cynnal asesiad o effaith y datblygu ar yr iaith Gymraeg a'u cynorthwyo i ddarganfod atebion i'r effaith andwyol y bydd nifer o dai ychwanegol yn ei greu.	Adran Gynllunio CSCNPT, Pwyllgor Rheoli MICNPT Staff y Fenter	Mawrth 2008	Amser staff yn unig
Partneriaethau Strategol – Partneriaeth Plant, Partneriaeth Pobl Ifainc, Grŵp Partneriaethol y Cynllun Cymunedol, Grŵp Tasg y Gymraeg, Cymunedau'n Gyntaf.	Sicrhau aelodaeth neu bresenoldeb ar bartneriaethau neu bwyllgorau strategol er mwyn hyrwyddo statws y Gymraeg.	Codi proffil y Fenter a dylanwadu ar feysydd polisi o safbwynt ieithyddol.	Pwyllgor Rheoli MICNPT, Staff.	Ebrill 2007	Amser staff yn unig
Mudiadau Gwirfoddol	Cynorthwyo mudiadau yn y sector gwirfoddol i ehangu eu defnydd o'r	Galluogi mudiadau gwirfoddol i ymateb i anghenion a hawliau	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol CNPT, Bwrdd yr Iaith, Fforwm	Mawrth 2008	Amser staff yn unig

	Gymraeg drwy ddatblygu polisïau iaith.	siaradwyr Cymraeg.	Iaith Sirol.		
Proffil Iaith	Diweddaru'r Proffil Iaith mewn cydweithrediad â'r Fforwm Iaith.	Sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu'r anghenion ieithyddol a adnabyddir gan y Proffil Iaith.	Pwyllgor Rheoli MICNPT, Staff.	Hydref 2007	Amser staff yn unig
Cynlluniau Iaith Statudol	Cynorthwyo cyrff cyhoeddus o fewn y sir i adolygu eu Cynlluniau Iaith.	Sicrhau bod y Cynlluniau Iaith yn cael eu monitro'n effeithiol a'u bod yn adlewyrchu dyheadau siaradwyr Cymraeg.	Pwyllgor Rheoli MICNPT, Staff.	Ebrill 2007	Amser staff yn unig
Cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol	Cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chynhyrchu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.	Rhoi darlun cynhwysfawr o waith a chyflawniadau'r Fenter i'r cyhoedd a chyhoeddi cyfrifon llawn yn ogystal ag ethol Pwyllgor Rheoli a Swyddogion am y flwyddyn nesaf	Pwyllgor Rheoli MICNPT	Tachwedd 2007	Amser staff yn unig
Gweithredu fel Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth	Darparu adnoddau, cyngor a gwybodaeth i'r cyhoedd ar unrhyw fater sydd yn ymwneud â'r Gymraeg	Datblygu'r swyddfa yn ganolfan i ddarparu cymorth, gwybodaeth ac adnoddau megis cyfieithu, taflenni a llungopïo.	Staff y swyddfa	Mawrth 2008	Amser staff yn unig